



Prifysgol Abertawe yn cynnal gweithdy AAU Mynd i'r Afael â Phontio mewn Mathemateg, Ystadegaeth ac Ymchwil Weithrediadol

Cynhaliodd Prifysgol Abertawe weithdy AAU (MSOR): Mynd i'r afael â Phontio mewn Mathemateg, Ystadegaeth ac Ymchwil Weithrediadol a gynhaliwyd ddydd Mawrth 25ain o Fawrth, 2014.

Gwelodd y digwyddiad llwyddiannus 21 o gynrychiolwyr o Ysgolion, Colegau a Sefydliadau Addysg Uwch ar draws Canolbarth a De Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i ystyried y problemau a'r materion pontio sy'n codi i fyfyrwyr sy'n mynd i Addysg Uwch ac i ddod o hyd i syniadau dyfeisgar a fyddai'n helpu i reoli a gwella y cyfnod pontio. Cafodd y noson ei chyflwyno a'i arwain gan Dr Mary McAlinden, Arweinydd Disgyblaeth Mathemateg, Ystadegaeth ac Ymchwil Weithredol yr Academi Addysg Uwch (AAU), sefydliad cenedlaethol ac annibynnol, a ariennir gan y pedwar corff cyllido Addysg Uwch y Deyrnas Unedig a chan danysgrifiadau a grantiau. Amlinellodd Dr McAlinden genhadaeth yr AAU i ddefnyddio arbenigedd ac adnoddau i gefnogi'r gymuned addysg uwch i ddatblygu a gweithredu strategaethau sy'n helpu myfyrwyr i ymdopi â heriau eu cyrsiau Mathemateg Addysg Uwch.

Mae'r materion a nodwyd gan y grŵp yn cynnwys diffyg gwybodaeth mewn rhai meysydd allweddol o Fathemateg ac anawsterau o addasu i arddulliau dysgu ac addysgu newydd gan fyfyrwyr gradd. Awgrymwyd i brifysgolion ddatblygu cysylltiadau agosach gydag ysgolion a cholegau, cynyddu cyfathrebu rhwng Addysg Bellach ac Addysg Uwch, ac annog mwy o staff a myfyrwyr y Brifysgol i ymweld ag ysgolion a cholegau i gyflwyno sesiynau gwybodaeth rhyngweithiol. Amlygodd y gweithdy yr angen i gynyddu'r niferoedd sy'n cymryd Mathemateg Bellach fel lefel-A er mwyn helpu i gynyddu ehangder gwybodaeth y pwnc, ac awgrymwyd bod ysgolion a cholegau yn helpu i baratoi eu myfyrwyr ar gyfer y Brifysgol drwy eu harfogi â gwybodaeth a'r gallu i addasu i wahanol arddulliau dysgu.

Roedd y trafodaethau yn gyson ddiddorol ac yn gadarnhaol, ac roedd yn wych gweld pobl o'r ddau sector o'r system addysg yng Nghymru yn rhannu nod gyffredin a dangos ymrwymiad i wella'r profiad i fyfyrwyr yn nisgyblaeth Mathemateg.

